
Sut dylid gwneud Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn hygyrch?

Ymgynghoriad i gyfrannu at reoliadau

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 3 Ebrill 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am fewnbwn mewn perthynas â gwella hygyrchedd gwasanaethau fideo rhaglenni ar-alwad i'r rheini sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg. Yn unol â Deddf yr Economi Ddigidol 2017, bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i gyfrannu at waith y Llywodraeth yn drafftio rheoliadau yn y maes hwn.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb

1

1. Crynodeb

Pam mae angen yr ymgynghoriad hwn?

- 1.1 Mae ein harferion gwyllo teledu wedi newid yn aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, yn sgil cyflwyno gwasanaethau teledu dal-i-fyny a gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad (fel Amazon Prime a Now TV). Yn ôl ymchwil Ofcom¹, mae 63% o oedolion y DU nawr yn defnyddio iPlayer ac mae 31% yn tanysgrifio i Netflix.
- 1.2 Ond er bod y gwasanaethau hyn yn cynnwys mwy o ddewis nag erioed o'r blaen, mae rhai ohonom yn colli allan. Ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu clyw a/neu ar eu golwg, mae mynediad at raglenni teledu (a'r gallu i'w mwynhau) yn dibynnu'n llwyr ar is-deitlau, iaith arwyddion neu ddisgrifiadau sain (sydd gyda'i gilydd yn cael eu galw yn 'wasanaethau mynediad').
- 1.3 Mae'r gyfraith yn mynnu bod sianeli teledu darlledu traddodiadol yn sicrhau bod cyfran benodol o'u rhaglenni yn hygyrch. Eleni roedd yn rhaid i 85 sianel ddarparu gwasanaethau mynediad, sy'n cynrychioli dros 90% o'r holl deledu a gafodd ei wyllo yn y DU.
- 1.4 Mae'r darlun yn dra gwahanol ar gyfer gwasanaethau dal-i-fyny ac ar-alwad. Nid oes dim gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau mynediad, ac mae ein gwybodaeth ddiweddaraf yn dangos nad ydy 62% o'r darparwyr ar-alwad yn cynnig unrhyw wasanaethau mynediad². I bob pwrpas felly mae'r rheini sy'n dibynnu ar y nodweddion hyn yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan.
- 1.5 Dyna pam mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn braenaru'r tir ar gyfer gofynion bod gwasanaethau ar-alwad yn cael eu gwneud yn hygyrch. Fel sy'n cael ei amlinellu ym mharagraff 2.8 isod, mae'n rhaid i Ofcom gynnal yr ymgynghoriad hwn er mwyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth cyn drafftio rheoliadau.

Beth fydd yr ymgynghoriad hwn yn ei gyflawni?

- 1.6 Ein nod ydy bod yr ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at reoliadau sy'n effeithiol, yn gymesur, yn hyblyg ac sy'n addas i fod yn berthnasol i ddiwydiant fideo ar-alwad sy'n amrywiol ac sy'n datblygu.
- 1.7 Gan gofio hyn, rydyn ni wedi nodi nifer o faterion allweddol ac rydyn ni'n gofyn am fewnbwn ar y rhain. Rydyn ni'n gofyn pa fath o ymyriad fyddai ei angen, pa wasanaethau ddylai fod yn rhwym wrth ba fath o ofynion, a sut dylid cyflwyno gofynion.

¹ Ofcom, Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2017. Edrychwch ar yr adrannau [teledu](#) ac [ar-lein](#)

² Gallwch ddarllen yr Adroddiad diweddaraf ar y wefan.

- 1.8 Rydyn ni'n gofyn i ymatebwyr roi cymaint o wybodaeth â phosibl i gefnogi eu safbwyntiau, er mwyn i'n hargymhellion i'r Llywodraeth fod yn seiliedig ar wybodaeth dda a'u bod yn adlewyrchu realiti'r diwydiant fideo ar-alwad a'r defnyddwyr a fyddai'n cael eu gwasanaethu gan fwy o hygyrchedd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- 1.9 Byddem yn croesawu mewnbwn ar y materion hyn erbyn **5pm dydd Mawrth 3 Ebrill 2018**. Bydd Ofcom yn ystyried yr ymatebion ac yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth. Ar yr adeg honno bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus a fydd yn amlinellu ei argymhellion i'r Llywodraeth.
- 1.10 Bydd y Llywodraeth wedyn yn ystyried argymhellion Ofcom. Ar ôl cyflwyno unrhyw reoliadau o'r fath, byddai Ofcom yn disgwyl ymgynghori ar god a fyddai'n rhoi cyfarwyddyd ar gydymffurfio â'r rheoliadau.

Y cyhoeddiad mewn fformatau eraill

- 1.11 Byddwn yn ystyried pob cais rhesymol ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon mewn fformatau neu ieithoedd eraill. Os hoffech chi wneud cais, gallwch ffonio ein Tîm Cyngori o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 a 17:00 ar 020 7981 3040 neu 0300 123 3333. Os ydych chi'n fyddar neu â nam ar eich lleferydd, gallwch chi ddefnyddio ein rhifau ffôn testun, sef 020 7981 3043 neu 0300 123 2024.